

Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori

Rhwydwaith Gwanwyn 2022

Cwestiwn ac Ateb

Uned 331 – a gaiff ymgeiswyr fynd â gwर्सlyfrau neu gyfnodolion i mewn i'r asesiad?

Gall dysgwyr fynd ag unrhyw adnoddau i mewn i'r asesiad i'w cefnogi gyda'u project ond ni fyddwn yn argymhell eu bod yn mynd â darnau mawr o ymchwil gan y byddant yn gwastraffu amser yn edrych drwy adnoddau. Byddwn yn awgrymu eu bod yn crynhoi ymchwil i wybodaeth bwrpasol benodol.

A oes angen i ni gyflwyno'r daflen amser?

Oes – bydd y Daflen Amser wedi'i chwblhau yn cael ei harchwilio ac mae angen ei chyflwyno gyda'r asesiad drwy ei llwytho i fyny drwy Surpass ym mis Mai.

Rydym yn goleg Google felly gallwn gau'r rhyngrwyd – ond weithiau nid yw Google Classroom yn cadw bob amser. Os oes gennym oruchwyliwr yn yr ystafell, a yw hynny'n iawn?

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y dysgwr mewn amgylchedd dan reolaeth wrth gwblhau'r asesiad. Ar yr amod bod dim peiriannau chwilio ar gael i'r dysgwr, mae defnyddio Google Classroom yn addas.

A oes angen rhestr gyfeirio a llyfryddiaeth arnynt neu ddim ond llyfryddiaeth yn unig? (yr wyf yn tybio nad yw wedi'i chyfeirnoddi'n llawn)

Oes, dylai'r dysgwr gyflwyno rhestr gyfeirio/llyfryddiaeth gyda'i asesiad.

Mae gan un o'm myfyrwyr ddyslecsia ac mae'n poeni am allu copio cyfeiriadau gwe i'w llyfryddiaeth gan fod rhai ohonynt yn hir iawn. Mae hi wedi gofyn a gaiff hi eu rhoi ar gof bach USB sy'n cael ei wirio ymlaen llaw er mwyn copio a gludo.

Caiff, mae storio ymchwil ar gof bach USB yn addas.

A yw'r cynllun marcio ar gyfer Uned 331 yn newid bob blwyddyn?

Nac ydy, bydd y cynllun marcio'n aros yr un fath bob blwyddyn.

Os na fydd dysgwr yn llwyddo yn yr ymchwiliad estynedig, a gaiff ailsefyll, ac os y caiff, pryd fyddai hyn yn digwydd?

Dim ond un cyfle sydd ar gyfer asesiad Uned 331 ym mhob blwyddyn academiaidd. Fodd bynnag, mae Uned 330 a 331 yn radd GMU gyfunol ym mis Awst.

Ble allwn ni ddod o hyd i'r ddogfen rhestr termau hon os gwelwch yn dda?

Dogfen canllawiau addysgu – tudalen olaf

Yn ystod yr amser ymchwil – a gaiff tiwtoriaid rannu adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol â nhw?

Caiff, fe gaiff tiwtoriaid wneud hynny. Gweler y dyfyniad o'r pecyn asesu isod

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae gofyn i chi ymchwilio ac ysgrifennu am fater cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru. Mae angen i ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth a

dealltwriaeth a gafwyd o bob rhan o'r cymhwyster a'ch lleoliad gwaith.

Rhoddir dau faes testun yn y Pecyn Ymgeiswyr hwn. Bydd angen i chi ddewis y testun rydych am ymchwilio iddo. Mae'r meysydd testun a roddir yn eang a gallwch ddewis canolbwyntio eich ymchwil ar feysydd penodol o fewn y testun a ddewiswyd gennych. Dylai'r meysydd ffocws o'ch dewis fod yn ganolog i'r testun.

Mae gennych hyd at bythefnos i gwblhau eich ymchwil.

Dylech gynllunio eich ymchwil, gan ystyried:

- *adnoddau/ffynonellau dilys, priodol, dibynadwy ac y gellir eu holrhain yr ydych yn bwriadu eu defnyddio*
- *sut byddwch yn casglu tystiolaeth yn rhan o'r ymchwiliad i baratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau gosod*
- *y canlyniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer pob tasg osod.*

Gallwch drafod y testun a ddewiswyd gennych, y meysydd ffocws dewisol a'r ymchwil arfaethedig â'ch

athro.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr adnoddau y gallwch eu defnyddio wrth wneud ymchwil.

Rydym newydd gwblhau ffug asesiad ac wedi rhoi adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar eu ffug asesiad. A fyddent yn cael defnyddio'r adborth hwn fel adnodd i gyfeirio ato yn ystod yr asesiad ei hun?

Gallant fynd ag unrhyw ymchwil i'r asesiad.